------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 151(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Cynnydd ar Ein Cymoedd, Ein Dyfodol

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol

(45 munud)

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion)

(15 munud)

**NDM6760** – Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mehefin 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bill documents — Non-Domestic Rating (Nursery Grounds) Bill 2017-19 — UK Parliament *(Saesneg yn unig)*

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

## 6 Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19

(30 munud)

**NDM6748** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 19 Mehefin 2018.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

i. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

ii. yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

iii. cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

iv. cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

v. cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

vi. manylion unrhyw ddiwygiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 – 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y'u nodir yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl: Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy

(60 munud)

**NDM6764** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru; ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud hyn drwy ei tharged uchelgeisiol o adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Llywodraeth hon – mae cynnydd da yn cael ei wneud i gyrraedd y targed hwnnw.

2. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen ar gyfer adeiladu mwy o dai fforddiadwy yn y dyfodol, mewn ymateb i ystod o ofynion o ran tai.

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i greu amodau sy'n ysgogi arloesedd a gwelliannau o ran dyluniad, ansawdd ac effeithlonrwydd ynni'r tai a ddarperir.

4. Yn nodi cwmpas yr adolygiad tai fforddiadwy a'r ffrydiau gwaith y cytunwyd arnynt.

Cafodd cwmpas yr Adolygiad Tai Fforddiadwy a'r ffrydiau gwaith y cytunwyd arnynt eu hanfon mewn e-bost at yr Aelodau ar 3 Gorffennaf 2018.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru.

2. Yn nodi cwmpas a ffrydiau gwaith cytunedig yr adolygiad o dai fforddiadwy.

3. Yn cydnabod cadernid amcanestyniad amgen y diweddar Athro Holman, 'Future Need and Demand for Housing in Wales', fel sail ar gyfer rhagweld yr angen am dai.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i efelychu uchelgais cymdeithasau tai Cymru sy'n anelu at ddyblu'r gyfradd bresennol o dai newydd a gaiff eu hadeiladu er mwyn cyflawni 75,000 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru erbyn 2036.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannnau 2, 3, 4 a 5 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ym mhwynt 1, dileu "ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud hyn drwy ei tharged uchelgeisiol o adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Llywodraeth hon – mae cynnydd da yn cael ei wneud i gyrraedd y targed hwnnw" a rhoi "ac yn gresynu bod llai na 3,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu ym mhob un o'r chwe blynedd ddiwethaf y mae ystadegau ar gael ar eu cyfer" yn ei le.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu 'uchelgeisiol' o bwynt 1.

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod cyngor a dadansoddiad annibynnol wedi dangos na fydd 20,000 o gartrefi fforddiadwy dros dymor y Cynulliad hwn yn bodloni'r anghenion presennol na'r anghenion yn y dyfodol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gael cynllun tymor hir ar gyfer cynyddu nifer y tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion cymunedau lleol ledled Cymru, gan gydnabod y gellir cyflawni hyn mewn ffyrdd gwahanol.

Yn galw ar yr holl dai cymdeithasol a chyngor newydd, lle bo'n bosibl, i gael paneli solar wedi'u gosod i sicrhau bod tenantiaid yn gallu elwa ar filiau ynni is.

Yn gresynu bod nifer y cartrefi gwag yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf cynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru.

Yn nodi cwmpas a ffrydiau gwaith cytunedig yr adolygiad o dai fforddiadwy.

Yn galw ar yr adolygiad o dai fforddiadwy i ystyried y cyd-destun ehangach o ran mynediad i wasanaethau cyhoeddus mewn ystadau newydd, gan nodi y gall mynediad gwael i wasanaethau cyhoeddus arwain at gynnydd sylweddol yn y costau y mae pobl ar incwm isel sy'n byw mewn ystadau o'r fath yn eu hwynebu.

Yn galw ar yr adolygiad i gynnwys grwpiau tenantiaid a'r rhai sydd yn y sector rhentu preifat, fel y gallant lywio'r dirwedd tai cymdeithasol a thai rhent yn y dyfodol yng Nghymru.

*[Os derbynnir gwelliant 4, caiff gwelliant 5 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 5** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o adeiladu tai modiwlar er mwyn darparu unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn gyflym.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 05/07/2018 i'w hateb ar 10/07/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

1 OAQ52519

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith Brexit ar addysg bellach ac uwch?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

2 OAQ52482

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid anwes yng Nghwm Cynon?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OAQ52509

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

4 OAQ52479

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymhwystra i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

5 OAQ52496

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y datblygiadau llain las yng Nghanol De Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

6 OAQ52484

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr asthma?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OAQ52488

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i blant ag epilepsi?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

8 OAQ52516

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi prosiectau treftadaeth ar Ynys Môn?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

9 OAQ52517

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am rôl Llywodraeth Cymru yn y negodiadau ar Brexit?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

10 OAQ52512

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth ledled Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

11 OAQ52494

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth ar gyfer cleifion yng ngogledd Cymru?

**Steffan Lewis** *Dwyrain De Cymru*

12 OAQ52518

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi datblygu rhyngwladol Llywodraeth Cymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

13 OAQ52510

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae codiadau cyflog ar gyfer gweithwyr awdurdodau lleol yn cael eu rhannu ymhlith y gweithlu?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

14 OAQ52481

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd yr M4 i dde Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

15 OAQ52513

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu i bobl â phroblemau iechyd meddwl?